**23 Mai 2023**

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i Werthoedd a Diwylliant mewn gwasanaethau tân ac achub**

Mae’n siomedig darllen bod y pryderon ynghylch diwylliannau gwenwynig yn lledaenu ar draws mwy o sefydliadau sector cyhoeddus.

Yr wyf wedi ceisio sicrwydd gan Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys mewn perthynas â’r argymhelliad sy’n berthnasol ar gyfer plismona:

**Argymhelliad 10**

Erbyn 1 Medi 2023, dylai prif gwnstabliaid sicrhau eu bod nhw’n defnyddio eu pwerau o ran Datgeliad Cyfraith Gwlad yr Heddlu mewn amgylchiadau sy’n ymwneud â gweithwyr gwasanaethau tân ac achub.

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a Gweithdrefnau Diogelu Cymru, mae gan yr Heddlu ddyletswydd gyfreithiol i adrodd (wrth yr awdurdod lleol) am unrhyw un yr ymddiriedir ynddo a allai gyflwyno perygl diogelu. Mae’r ddyletswydd hon hefyd yn mynnu bod yr Heddlu neu awdurdod lleol yn hysbysu’r arweinydd diogelu o fewn y cyflogwr perthnasol. Lle bo’n briodol, defnyddir y Datgeliad Cyfraith Gwlad yn unol â chanllawiau’r Coleg Plismona.

Mae’r heddlu wedi ymrwymo i gynnal archwiliad o achosion pryderon proffesiynol i sefydlu pa un ai a ddefnyddiwyd pŵer Datgeliad Cyfraith Gwlad yr Heddlu ai peidio, ac os felly, pa un ai a ydoedd yn briodol yn yr amgylchiadau. Byddaf yn gofyn i’r Prif Gwnstabl adrodd ar ganlyniad hyn mewn cyfarfod o’m Bwrdd Plismona ym mis Medi 2023.